**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/MD/2664/15

Elin Jones AC
Aelod Cynulliad Ceredigion

Annwyl Elin,

16 Gorffennaf 2015

Yn ystod fy Ngwestiynau Llafar ar ddydd Mercher 24 Mehefin, fe wnaethoch chi ofyn a oedd gennyf unrhyw ffigurau penodol ar nifer y nyrsys sy'n gweithio i'n GIG a fydd yn gorfod gadael y DU pan ddaw'r rheolau newydd i rym ar fewnfudo i'r DU. Fe wnes i gadarnhau y byddwn yn hapus i gyhoeddi ffigur unwaith y byddai'r data wedi cael eu dadansoddi ymhellach gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau.

Mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau wedi cadarnhau mai unarddeg o'r nyrsys a gyflogir ar hyn o bryd yn GIG Cymru sydd wedi'u heffeithio gan y rheolau newydd ar fewnfudo.

Mae'r tabl isod yn dangos y nyrsys sydd wedi'u heffeithio fesul sefydliad.

| **Sefydliad GIG** | **Nifer y nyrsys sydd wedi'u heffeithio** |
|---|---|
| Betsi Cadwaladr | 2 |
| Powys | 0 |
| Cwm Taf | 2 |
| Hywel Dda | 1 |
| Aneurin Bevan | 2 |
| Abertawe Bro Morgannwg | 1 |
| Caerdydd a'r Fro | 3 |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 0 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 0 |
| Felindre | 0 |
| **Cyfanswm** | **11** |

O ran yr effaith ar y gweithlu nyrsio mewn cartrefi gofal annibynnol, nid yw'r data ar gael ar hyn o bryd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno â Fforwm Gofal Cymru sut mae modd casglu'r data hwn yn ystod cyfnod casglu'r dystiolaeth gan y Pwyllgor Cynghori ar Fewnfudo, er mwyn deall yr effaith bosib yng Nghymru.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Fforwm Gofal Cymru yn bwrw ymlaen â hyn, ac mae is-grŵp y gweithlu yn cael ei sefydlu o dan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cartrefi Gofal, a fydd mewn sefyllfa dda i roi sylw i'r mater hwn yn gyflym.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services